# Cofnodion CBCGC wedi'u Cadarnhau
## Is-bwyllgor Cynllunio, Perfformiad a Chyllid (ICPC)
## 26 Chwefror 2026 am 13:30 o'r gloch
## Microsoft Teams

| | | |
|---|---|---|
| **Aelodau:** | | |
| Paul Worthington | (PW) | Cadeirydd yr ICPC ac Aelod Lleyg |
| Nia Roberts | (NR) | Aelod Lleyg |
| Hayley Thomas | (HT) | Prif Swyddog Gweithredol, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys |
| **Yn Bresennol:** | | |
| Aaron Fowler | (AF) | Ysgrifennydd y Pwyllgor |
| George Galletly | (GG) | Cyfarwyddwr Corfforaethol, Cynllunio a Strategaeth |
| Sue O'Leary | (SO'L) | Cyfarwyddwr Comisiynu ar gyfer Iechyd Meddwl, Anableddau Dysgu a Grwpiau sy'n Agored i Niwed |
| Stacey Taylor | (ST) | Cyfarwyddwr Cyllid a Gwerth/Dirprwy Brif Gomisiynydd |
| Ross Whitehead | (RW) | Cyfarwyddwr Comisiynu Gwasanaethau Ambiwlans ac 111 |
| Melanie Wilkey | (MW) | Cyfarwyddwr Comisiynu ar gyfer Gwasanaethau Arbenigol |
| **Ymddiheuriadau:** | | |
| Abigail Harris | (AH) | Prif Swyddog Gweithredol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe |
| Huw George | (HG) | Prif Gomisiynydd Dros Dro |
| Ian Green | (IG) | Aelod Lleyg a Chadeirydd Annibynnol y Cyd-bwyllgor |
| **Arsylwyr** | | |
| Matt Edwards | (ME) | Ysgrifennydd Cynorthwyol y Pwyllgor – Llywodraethiant a Busnes |
| Emma King | (EK) | Cyfarwyddwr Cynorthwyol Cynllunio a Rhaglenni |
| **Cofnodion:** | | |
| Maxine Evans | (MEv) | Swyddog Sicrwydd a Risg, CBCGC |

Agorodd y cyfarfod am 13:30 o'r gloch.

| Cyfeirnod yr Eitem | Eitem Agenda |
|---|---|
| PPF26/088 | **1.1 Croeso a Chyflwyniadau**<br>Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a gwnaed cyflwyniadau. Roedd y cyfarfod, a gynhaliwyd trwy Microsoft Teams, yn ffurfio cworwm ac ni chodwyd unrhyw wrthwynebiadau i recordio'r cyfarfod at ddibenion gweinyddol. |
| PPF26/088 | **1.2 Ymddiheuriadau am Absenoldeb**<br>**Nodwyd** ymddiheuriadau am absenoldeb, fel y disgrifir uchod. |
| PPF26/089 | **1.3 Datganiadau o Fuddiant**<br>Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau ychwanegol yn ystod y cyfarfod. Atgoffodd y Cadeirydd yr aelodau a'r rhai oedd yn bresennol o bwysigrwydd cofnodi datganiadau buddiant. |
| PPF26/090 | **1.4 Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Rhagfyr 2025**<br>**Cymeradwywyd** cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Rhagfyr 2025 fel cofnod gwir a chywir. |
| PPF26/091 | **1.5 Cofnod Camau Gweithredu**<br>Cafwyd y Cofnod Camau Gweithredu. **Nododd** yr aelodau: |

| Cyfeirnod yr Eitem | Eitem Agenda |
|---|---|
| | • **PPF25/012** – Roedd cadarnhad o'r gofynion hyfforddi statudol/gorfodol ar gyfer Aelodau Lleyg yn parhau i fod heb eu cadarnhau. Cynghorodd AF fod sgyrsiau yn parhau i gael eu cynnal gyda BIPCTM i gytuno ar y gofyniad hyfforddi ar gyfer Aelodau Annibynnol BIPCTM ac Aelodau Lleyg CBCGC. Bydd hyn yn rhan o raglen datblygu sefydliadol sy'n cael ei datblygu. |
| PPF26/092 | **2.1 Cofrestr Risg Sefydliadol (CRS) CBCGC – Risgiau a Neilltuwyd i'r Is-bwyllgor CPC**<br>Derbyniodd y Pwyllgor risgiau a neilltuwyd i'r is-bwyllgor CPC o Gofrestr Risgiau Gweithredol CBCGC ar 31 Ionawr 2026. Ar ôl craffu ac adolygu gan yr is-bwyllgor CPC, bydd y cyd-bwyllgor yn cael cofrestr risg Ionawr 2026 yn ei gyfarfod ym mis Mawrth 2026. **Nododd** yr aelodau:<br>• roedd tri risg gomisiynu a dau risg gorfforaethol, gyda sgôr risg o bymtheg ac uwch, wedi'u neilltuo i'r Is-bwyllgor CPC.<br>• Roedd natur y risgiau a amlinellwyd wedi symud i ddull sy'n canolbwyntio ar y comisiynydd, a ddylai arwain at well rheolaethau a chamau gweithredu mwy effeithiol, ond mae hyn yn parhau i fod yn waith ar y gweill. Bydd y gwaith hwn yn llywio'r gwaith o reoli amcanion strategol y sefydliad a'r Fframwaith Sicrwydd ar y Cyd sy'n cael eu datblygu ar hyn o bryd.<br>• Roedd un risg wedi'i huwchgyfeirio; roedd chwe risg wedi'u hisgyfeirio; roedd un risg a oedd yn dod i'r amlwg wedi'i amlygu a oedd wedi'i hystyried gan yr Uwch Dîm Arwain ar 18 Chwefror a chytunwyd i'w chynnwys ar y CRS ar ôl mireinio'r disgrifiad risg ymhellach. Yn dilyn y cyfarfod, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ymateb i lythyr Cyfarwyddwr Meddygol y CBC yn egluro'r llwybr i ofyn am gyllid. O'r herwydd, nid yw'r Gyfarwyddiaeth Feddygol bellach yn ystyried bod hyn yn risg uchel i'r CBC gan gynnig ei fod yn cael ei dynnu o'r CRS. Bydd yn cael ei adolygu a'i reoli'n lleol gan y tîm a'i uwchgyfeirio os bydd angen..<br><br>**Trafododd** yr aelodau:<br>• Y newidiadau cadarnhaol i'r gofrestr risg mewn perthynas â'r newid i risgiau sy'n canolbwyntio ar y comisiynydd.<br>• Risg 61 - Amseroedd aros am lawdriniaeth gordewdra yn Ysbyty Brenhinol Salford. Eglurwyd bod darparwr Salford wedi cael ei uwchgyfeirio oherwydd oedi mewn ymatebion a sicrwydd i geisiadau'r CBC am ddata a gwell perfformiad. Ers hynny, mae'r darparwr wedi cyhoeddi rhybudd i derfynu'r contract. Mae'r tîm comisiynu yn chwilio am ddarparwyr amgen yng Ngogledd-orllewin Lloegr ac yn gweithio gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe (BIPBA) i ddarparu ar gyfer cleifion yr effeithir arnynt yn y cyfamser. Cydnabuwyd y risg gomisiynu i'r CBC ar gyfer sicrhau darpariaeth gwasanaeth hirdymor, a'r risg uniongyrchol i gleifion, yn enwedig ar gyfer Gogledd a Dwyrain Cymru, a byddai'n cael ei adlewyrchu yn y disgrifiad risg wrth symud ymlaen.<br>• Risg 77 – Comisiynu digon o gapasiti Gwasanaethau Ambiwlans Brys. Nodwyd gwaith i ailfframio'r risgiau sy'n gysylltiedig ag ambiwlans gyda phersbectif comisiynu, gyda'r nod o egluro'r camau y gall comisiynwyr eu cymryd yn erbyn cyfrifoldebau darparwyr, a byddai'n cael ei rannu mewn cyfarfod Pwyllgor yn y dyfodol yn dilyn adolygiad pellach gyda'r Tîm Llywodraethiant Corfforaethol.<br>• Cynnwys risgiau sy'n dod i'r amlwg, fel therapïau genynnau, yn y CRS a datblygu'r Fframwaith Sicrwydd ar y Cyd. Cydnabuwyd bod hon yn broses ailadroddol, a bod gwaith i gydweddu ac integreiddio risgiau sefydliadol a strategol o fewn y Cynllun Tymor Canolig Integredig, yn benodol effaith penderfyniadau a wneir ynghylch buddsoddi, wedi'i gynllunio dros y misoedd nesaf.<br><br>**Penderfynodd** yr Aelodau:<br>• **Nodi'r** adroddiad,<br>• **Adolygu** a **chraffu** ar y risgiau a neilltuwyd i'r is-bwyllgor ar ran y CBCGC; a<br>• **Chymeradwyo'r** CRS ar gyfer **sicrwydd** ymlaen i'r cyd-bwyllgor ar reoli'r risgiau yn effeithiol |

| Cyfeirnod yr Eitem | Eitem Agenda |
|---|---|
| | |
| PPF26/093 | **2.2 Adroddiad Perfformiad Gweithredol Cyfunol y CBCGC**<br>Cafwyd Adroddiad Perfformiad Gweithredol Cyfunol y CBCGC. Amlygodd ST:<br>• Gwelliannau mewn amseroedd aros i gleifion allanol, heb unrhyw gleifion yn aros mwy na 104 wythnos am wasanaethau wedi'u monitro, yn enwedig llawdriniaeth blastig. Fodd bynnag, mae rhai ardaloedd yn profi rhestrau aros cynyddol, gyda chynnydd o 4% yn gyffredinol, gan godi pryderon ar gyfer 2026-27.<br>• Roedd adran wedi'i diweddaru yn canolbwyntio ar Iechyd Meddwl, Anableddau Dysgu a Grwpiau Agored i Niwed (IMADGAN) wedi'i chynnwys a oedd yn ymgorffori data newydd ar arosiadau canolrifol a chyfraddau defnyddio.<br>• Toriadau yng nghyfraddau perfformiad ambiwlansys.<br>• O ran staff a gweithlu, un dangosydd perfformiad ambr sy'n weddill yn gysylltiedig â chwblhau Arfarniadau Perfformiad ac Adolygu Datblygiad y credwyd ei fod yn gysylltiedig â phroblem adrodd o fewn y Cofnod Staff Electronig.<br><br>**Trafododd** yr aelodau:<br>• IMADGAN – Rhoddwyd sicrwydd bod cyfarfodydd aml-asiantaeth rheolaidd a monitro agos trwy gydlynwyr gofal yn parhau i fod ar waith ar gyfer St Andrews Healthcare ar gyfer trigolion Cymru a leolir ar y safle. Roedd hyn yn cynnwys ymgysylltu â chleifion a'u teuluoedd. Mae Clinig Caswell yn parhau i fod ar Lefel 3 o ran uwchgyfeirio, fodd bynnag, ar nodyn cadarnhaol roedd yr uned bellach wedi ailagor i dderbyniadau, gydag ymdrechion i fynd i'r afael â gofynion cynllun gweithredu pendant yn parhau. CAM GWEITHREDU: Cytunwyd y byddai llwybr gwella ac effaith ariannol ar gyfer y cynlluniau dychwelyd disgwyliedig o gleifion diogelwch canolig a chleifion Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed yn ôl i GIG Cymru yn cael eu datblygu a'u rhannu.<br>• Gwasanaethau Anhwylderau Bwyta – Nodwyd y ffocws strategol ar wasanaethau anhwylderau bwyta, gan gyfeirio at ohebiaeth weinidogol ddiweddar a dderbyniwyd gan Fyrddau Iechyd, a'r newid disgwyliedig i ymyrraeth gynnar yn y llwybr. Mae trefniadau interim gydag Elysium Healthcare ar waith ar hyn o bryd, ac er bod hyn yn heriol i'r darparwr, mae gostyngiad sylweddol yn nifer y cleifion mewnol eisoes wedi'i weld o ganlyniad i newid cadarnhaol yn y lefel uwch o gymorth cymunedol.<br>• Gwasanaethau Ambiwlans - Mae amseroedd ymateb ambiwlansys ychydig yn uwch na thargedau perfformiad ond roeddent wedi gwella yn ystod y misoedd diwethaf, ac mae’r Pwyllgor yn cydnabod bod y model ymateb newydd yn dal yn ei ddyddiau cynnar. Mae sgyrsiau'n symud ymlaen gyda'r darparwr (Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru) gyda mwy o ffocws yn cael ei roi ar sicrwydd ynghylch diogelwch clinigol eu model gweithredol. Mae gwerthusiad tair blynedd allanol o'r model wedi'i gomisiynu gyda Phrifysgol Abertawe a Phrifysgol Edge Hill i adolygu model gweithredol a pherfformiad Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru. Disgwylir canfyddiadau interim 12 mis ar ôl lansiad cam dau, ac mae gwaith parhaus yn canolbwyntio ar gyfanswm amseroedd aros cleifion a gwelliannau technolegol ar gyfer rheoli ciwiau ar y Dangosfwrdd. Bydd canfyddiadau lefel uchel yr Adolygiad Cynhyrchiant Strategol parhaus yn cael eu cyflwyno i gyfarfod y cyd-bwyllgor ym mis Mawrth er y nodwyd bod y meincnodi gyda darparwyr NHS England wedi symud ymlaen cyn belled ag y cynlluniwyd.<br>• Gwasanaethau Arbenigol - Cadarnhawyd bod cleifion sy'n nesáu at y trothwy 104 wythnos o ran llawdriniaeth blastig yn fach o ran nifer gyda chyllid ychwanegol yn cael ei ddefnyddio ar gyfer mentrau rhestr aros, er y gall amseroedd aros gynyddu eto heb fuddsoddiad pellach. Cydnabuwyd gorberfformiad mewn cardioleg ymyriadol a thanberfformiad mewn llawfeddygaeth y galon, yn enwedig yn Ysbyty’r Galon a’r Frest, Lerpwl a nodwyd bod adolygiad strategol wedi'i gynllunio i fynd i'r afael â'r ddau faes, a fydd yn ystyried cyfluniad gwasanaethau a'r angen am fuddsoddiad cyfalaf. |

<table>
<tr><th>Cyfeirnod yr Eitem</th><th>Eitem Agenda</th></tr>
<tr><td></td><td>CAMAU GWEITHREDU:<ul><li>Llwybr manwl ac effaith ddisgwyliedig dychwelyd cleifion diogelwch canolig a Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed yn ôl i wasanaethau a gomisiynwyd gan GIG Cymru, gan gynnwys disgwyliadau gwella a goblygiadau ariannol i'w rhannu gyda'r Pwyllgor – SO'L</li><li>Rhannu'r dull methodolegol a'r amserlen adrodd interim ar gyfer gwerthusiad Prifysgol Abertawe a Phrifysgol Edge Hill o drawsnewid model clinigol Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru – RW</li></ul>Penderfynodd yr Aelodau:<ul><li>Nodi'r wybodaeth a ddisgrifir yn yr adroddiad perfformiad gweithredol cyfunol.</li></ul></td></tr>
<tr><td>PPF26/094</td><td>2.3 Adroddiad Perfformiad Ariannol CBCGC – Mis 10 2025-26<br>Derbyniwyd Adroddiad Perfformiad Ariannol Mis 10 y CBCGC, a thynnwyd sylw at y canlynol:<ul><li>Diffyg a ragwelir o £6.9m yn erbyn cynllun ariannol y CCI gyda risg weddilliol yn gostwng i £3.2 miliwn oherwydd setliadau diwedd y flwyddyn cadarnhaol. Mae'r tîm yn hyderus o gyflawni'r rhagolwg, gyda materion allweddol wedi'u datrys, gan gynnwys ad-daliad ar gyfer lleoliadau y tu allan i'r ardal sy'n gysylltiedig â Chlinig Caswell.</li><li>Effaith gadarnhaol arafu gweithgarwch yn NHS England o ganlyniad i'r sgyrsiau capio sydd wedi'u cynnal er y bydd hyn yn golygu lefel uwch o risg yn y flwyddyn ariannol nesaf.</li></ul>Trafododd yr aelodau:<ul><li>Trafodaethau Contract Darparwyr - Cynnydd o ran cytuno ar Gytundebau Lefel Gwasanaeth gyda darparwyr ar gyfer 2026/27. Cadarnhawyd bod trafodaethau yn parhau, gyda'r nod o gymeradwyo Cynllun Tymor Canolig Integredig erbyn diwedd mis Mawrth, ac yna yn fuan wedi hynny yn sicrhau Cytundebau Lefel Gwasanaeth yn cydnabod y bydd y rhain yn ddibynnol ar ddyraniadau cyllid terfynol y byrddau iechyd.</li><li>Asesiad Risg –<ul><li>Mae pwysau'r gaeaf yn cael ei reoli â chyllideb fach yn weddill, ac mae monitro ar lefel cleifion gan NHS England ar y gweill.</li><li>Ystyrir bod Ceisiadau Cyllido Cleifion Unigol yn fach iawn ar gyfer gweddill y flwyddyn hon, a disgwylir i'r rhan fwyaf o gymeradwyaethau gael eu gwireddu yn y flwyddyn ariannol newydd.</li></ul></li><li>Craffu i Ddod – Mae'r CBCGC wedi cael gwahoddiad i sesiwn graffu Llywodraeth Cymru ym mis Mawrth, gyda phresenoldeb cyfarwyddwyr er mwyn adolygu perfformiad diwedd blwyddyn.</li></ul>Penderfynodd yr Aelodau:<ul><li>Nodi'r sefyllfa ariannol ar ddiwedd y mis.</li></ul></td></tr>
<tr><td>PPF26/095</td><td>2.4 Datblygu Cynllun Tymor Canolig Integredig CBCGC<br>Darparwyd diweddariad llafar ar gamau olaf datblygu'r Cynllun Tymor Canolig Integredig. Tynnodd GG sylw at y canlynol:<ul><li>Lleihau diffyg y Cynllun Tymor Canolig Integredig o £39 miliwn ym mis Rhagfyr i £16.2 miliwn. Mae'r CBCGC yn parhau i ymgysylltu â Byrddau Iechyd i gytuno ar y cynllun terfynol, a fydd yn cael ei drafod yng nghyfarfod y cyd-bwyllgor ar 17 Mawrth 2026 a'i gyflwyno ymhellach i'w gymeradwyo ar 23 Mawrth 2026 i gyd-fynd â Chynllun Tymor Canolig Integredig y bwrdd iechyd neu gymeradwyaethau'r Bwrdd Cynllun Blynyddol.</li></ul>Trafododd yr aelodau:</td></tr>
</table>

| Cyfeirnod yr Eitem | Eitem Agenda |
|---|---|
| | • Yr angen am graffu ychwanegol ar ôl cymeradwyo'r Cynllun Tymor Canolig Integredig a'r amserlen a'r broses ar gyfer nodi opsiynau pellach i wella'r sefyllfa ariannol y tu hwnt i fis Mawrth 2026. Nodwyd ymgysylltiad cadarnhaol parhaus â chyfarwyddwyr gweithredol y bwrdd iechyd, gan gynnwys gweithio gyda darparwyr i gwmpasu allbynnau ac amserlenni ar gyfer blaenoriaethau strategol, gyda'r nod i ddarparu mwy o fanylion i'r cyd-bwyllgor ym mis Mawrth. Bydd cynlluniau amlinellol a cherrig milltir yn cael eu rhannu gyda'r cyd-bwyllgor ym mis Mai 2026 gyda'r bwriad o gychwyn darnau allweddol o waith yn Chwarter Un 2026-27.<br>• Yr angen am naratif tryloyw o fewn y Cynllun Tymor Canolig Integredig sy'n disgrifio'r dewisiadau anodd a wnaed eisoes hyd yn hyn ac yn amlinellu maint parhaus yr her, y camau sydd eu hangen i gyflawni cydbwysedd ariannol sefydlog, rheolaidd, ac effaith newidiadau posibl i wasanaethau, gan gynnwys y posibilrwydd o ddatgomisiynu neu ad-drefnu gwasanaethau.<br><br>**Penderfynodd** yr Aelodau:<br>• **Nodi'r** diweddariad ar ddatblygiad y Cynllun Tymor Canolig Integredig. |
| PPF26/096 | **2.5 Diweddariad Cyflawni Chwarterol Cynllun Sylfaen y CBCGC**<br>Cafodd yr aelodau ddiweddariad am sicrwydd yn erbyn cyflawniadau Chwarter 1, 2 a 3 y Cynllun Sylfaen. Cymerwyd yr adroddiad fel ei fod wedi'i ddarllen, gan gydnabod lefel y manylder a gynhwyswyd a'r meysydd a adroddwyd yn goch ac yn ambr o ganlyniad i'r penderfyniadau a wnaed yn nhrafodaethau'r Cynllun Tymor Canolig Integredig i beidio â buddsoddi mewn meysydd gwaddol y cytunwyd arnynt yn flaenorol.<br><br>**Trafododd** yr aelodau:<br>• Yr adolygiadau strategol parhaus ar gyfer gwasanaethau cardiaidd ac ambiwlans, gan nodi'r heriau o gydbwyso gwaith gweithredol a strategol ag adnoddau cyfyngedig, a'r angen am fuddsoddiad cyfalaf a phrosesau gwneud penderfyniadau clir ar gyfer ad-drefnu gwasanaethau.<br>• Y sefyllfa bod asesiadau llinell sylfaen ar gyfer gwaith y sector gwirfoddol a'r trydydd sector ar y trywydd iawn, gyda llithriad bach. Bydd diweddariadau yn cael eu cyflwyno i'r Grŵp Arwain Comisiynu Cydweithredol ar gyfer monitro parhaus ac er mwyn sicrhau cysondeb â'r cynllun sylfaen a thynnu sylw at unrhyw amrywiadau.<br><br>**Penderfynodd** yr Aelodau:<br>• **Nodi'r** adroddiad fel adroddiad sefyllfa yn erbyn cyflwyno Cynllun Sylfaen CBCGC o Chwarter 3.<br>• **Nodi'r** statws gweithredu a chydnabod y bydd Grwpiau Comisiynu Cydweithredol CBCGC yn monitro trefniadau ar gyfer unrhyw amrywiad yn erbyn y cynllun sylfaenol. |
| PPF26/097 | **3.1 Adolygiad o'r Cylch Gorchwyl Blynyddol**<br>Derbyniwyd y ddogfen ddrafft gyda newidiadau wedi'u tracio. **Nododd** yr aelodau fod y cylch gorchwyl wedi'i ddiweddaru er mwyn eglurder ac i'w gysoni â'r busnes cyfredol.<br><br>**Trafododd** yr aelodau:<br>• Nodwyd nad yw cyfarwyddwyr comisiynu yn cael eu cydnabod yn ffurfiol fel mynychwyr rheolaidd o fewn y Cylch Gorchwyl, fodd bynnag, roedd pwysigrwydd eu cynnwys, gan adlewyrchu eu cyfraniad hanfodol i waith y pwyllgor yn amhrisiadwy. Nid oedd unrhyw broblem wedi'i ragweld wrth ychwanegu cyfarwyddwyr fel mynychwyr yn unol â'r is-bwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Chanlyniadau. |

| Cyfeirnod yr Eitem | Eitem Agenda |
|---|---|
| | • Awgrymwyd y dylid myfyrio ymhellach ynghylch y llinell atebolrwydd a sicrwydd rhwng yr is-bwyllgor a'r cyd-bwyllgor, gan sicrhau'r lefel gywir o gysylltedd a chael y bobl iawn yn y cyfarfodydd sy'n ychwanegu gwerth at y trafodaethau. Gofynnwyd a ddylai rôl y pwyllgor fod yn ymwneud â sicrwydd yn unig neu'n fwy lluniol, gan awgrymu y gallai trafodaethau manylach ar lefel is-bwyllgor lywio penderfyniadau'r cyd-bwyllgor yn well ac ychwanegu gwerth y tu hwnt i fod yn gam gweithdrefnol.<br>• O ran y gyfradd presenoldeb o 75% ar gyfer aelodau lleyg, awgrymwyd y dylid adolygu'r geiriad i'w adlewyrchu fel 'disgwyliad' yn hytrach nag 'absoliwt', er mwyn osgoi cosbi aelodau yn annheg am absenoldebau anochel.<br><br>**Cam Gweithredu:**<br>• Adolygu'r gwelliannau arfaethedig fel yr uchod a'u rhannu yn rhithwir gyda Chadeirydd yr Is-bwyllgor CPC i'w llofnodi cyn y cyd-bwyllgor ym mis Mawrth i'w cymeradwyo.<br><br>**Penderfynodd** yr Aelodau:<br>• **Ystyried** y newidiadau arfaethedig i'r Cylch Gorchwyl presennol; a<br>• **Chymeradwyo'r** Cylch Gorchwyl diwygiedig arfaethedig i'w argymell i'r Cyd-bwyllgor. |
| PPF26/098 | **3.2 Adolygiad Blynyddol o Effeithiolrwydd yr Is-bwyllgor**<br>Cyflwynodd AF yr Arolwg Effeithiolrwydd Blynyddol ar gyfer 2025-26 i'r aelodau, gan nodi, yn dilyn blwyddyn o weithredu, ei bod bellach yn cael ei hystyried yn briodol i adolygu perfformiad ac effeithiolrwydd yr is-bwyllgor.<br><br>Nodwyd y byddai'r holiadur yn cael ei ddosbarthu ar-lein yr wythnos yn dechrau 2 Mawrth 2026.<br><br>Gan gyfeirio at y drafodaeth flaenorol ynghylch y Cylch Gorchwyl, anogwyd yr aelodau i roi adborth cadarn ac agored i lywio gwelliannau yn y dyfodol a sicrhau bod y pwyllgor yn cyflawni ei rôl arfaethedig.<br><br>**Penderfynodd** yr Aelodau:<br>• **Gymeradwyo'r** cwestiynau arfaethedig a'r dull o ymdrin â'r hunanasesiad. |
| PPF26/099 | **3.3 Adroddiad Blynyddol Cynllunio, Perfformiad a Chyllid 2025-2026**<br>Derbyniodd yr Aelodau Adroddiad Blynyddol drafft yr Is-bwyllgor Cynllunio, Perfformiad a Chyllid 2025-2026 sy'n nodi sut mae'r CPC wedi cyflawni nodau ac amcanion fel y nodir yn ei Gylch Gorchwyl, a Rheolau Sefydlog ehangach CBCGC (Rheol Sefydlog 7.24), yn ystod y flwyddyn ariannol. Roedd trosolwg o'r cyfarfodydd a gynhaliwyd yn ystod 2024-25 hefyd wedi'i gynnwys i roi trosolwg llawn o'r gweithgarwch a gynhaliwyd ers ei sefydlu.<br><br>Ac eithrio adolygu'r geiriad ar bresenoldeb, cymeradwywyd y cynllun.<br><br>**Penderfynodd** yr Aelodau:<br>• **Nodi'r** adroddiad, a<br>• **Chymeradwyo** Adroddiad Blynyddol 2025-26 ar gyfer sicrwydd ymlaen i'r cyd-bwyllgor. |
| PPF26/100 | **3.4 Blaengynllun Busnes 2026-2027**<br>Cyflwynodd AF flaengynllun busnes a ddatblygwyd i helpu i gynllunio rheoli materion yr is-bwyllgor ac i hwyluso'r gwaith o reoli agendâu a busnes yr is-bwyllgor.<br><br>Cymeradwywyd y cynllun gan yr aelodau. |

| Cyfeirnod yr Eitem | Eitem Agenda |
|---|---|
| | **Penderfynodd** yr Aelodau:<br>• **Gymeradwyo'r** Blaengynllun Busnes ar gyfer 2026-27. |
| PPF26/101 | **3.5 Unrhyw Fusnes Arall**<br>Ni chodwyd unrhyw fusnes pellach. |
| PPF26/102 | **3.6 Eitemau i'w gohirio/uwchgyfeirio at y Cyd-bwyllgor Comisiynu / Is-bwyllgorau eraill ac adolygiad o unrhyw gamau gweithredu i gyfarfodydd yn y dyfodol**<br>Nid oedd unrhyw eitemau i'w gohirio na'u huwchgyfeirio y tro hwn. |
| PPF26/103 | **3.7 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf**<br>Daeth y cyfarfod i ben am 15:19. Trefnwyd y cyfarfod nesaf ar gyfer 28 Ebrill 2026. |